

Agenda – Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd Alun Davidson
Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mai 2019 Clerc y Pwyllgor
Amser: 14.00 0300 200 6565
SeneddMADY@cynulliad.cymru

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(14.00)
- 2 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**
(14.00)
- 3 **Sesiwn briffio breifat ar fframweithiau cyffredin**
(14.00 – 14.45) (Tudalennau 1 – 46)
Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru
Paul Harrington, Llywodraeth Cymru
Yn dilyn eitem 3, bydd y Pwyllgor yn ailddechrau ar gyfer busnes cyhoeddus
- 4 **Gwaith dilynol ar ein parodrwydd i ymadael â'r UE – sesiwn dystiolaeth 1**
(14.45 – 15.30) (Tudalennau 47 – 78)
Dr Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Y Cynghorydd Rob Stewart, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- 5 **Gwaith dilynol ar ein parodrwydd i ymadael â'r UE – sesiwn dystiolaeth 2**
(15.30 – 16.15)
Yr Athro Colin Riordan, Prifysgolion Cymru



Mairwen Harris, Prifysgolion Cymru

Nesta Lloyd-Jones, Cydffederasiwn GIG Cymru

6 Papurau i'w nodi

(16.15 – 16.20)

6.1 Papur i'w nodi rhif 1: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Masnach (Memorandwm Rhif 3): Y Bil Masnach

(Tudalennau 79 – 82)

6.2 Papur i'w nodi rhif 2: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Iwerddon yn ymwneud â'r Ardal Deithio Gyffredin a'r hawliau a'r breintiau cyfatebol perthnasol

(Tudalennau 83 – 86)

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(16.20)

8 Gwaith dilynol ar ein parodrwydd i ymadael â'r UE – ystyried tystiolaeth

(16.20 – 16.35)

9 Craffu ar gytundebau rhyngwladol

(16.35 – 16.50)

(Tudalennau 87 – 103)

10 Trafodaeth ar yr ymweliad arfaethedig â gogledd Cymru

(16.50 – 16.55)

(Tudalennau 104 – 109)

11 Trafodaeth ar Fil y Cytundeb Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

(16.55 – 17.05)

(Tudalennau 110 – 117)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)

BIL MASNACH

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29(iii)(a) yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a bod modd cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Bil Seneddol y DU os yw gwelliannau y cytunwyd arnynt yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth berthnasol y tu hwnt i derfynau unrhyw gydsyniad a roddwyd yn flaenorol.
2. Cyflwynwyd y Bil Masnach (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Tachwedd 2017. Symudwyd y Bil i Dŷ'r Arglwyddi ar 18 Gorffennaf 2018 ac fe'i darllenwyd am y trydydd tro yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Mawrth 2019. Cewch weld y Bil yn:
[Dogfennau'r Bil — Bil Masnach 2017-19 — Senedd y DU](#)

Amcanion Polisi

3. Yr amcanion polisi a nodir gan Lywodraeth y DU yw darparu dilyniant i fusnesau, gweithwyr a defnyddwyr ledled y DU a sefydlu'r DU yn genedl fasnachu fyd-eang annibynnol. Er mwyn cefnogi hyn mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithredu cytundebau masnach rhyngwladol; sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach a rhoi swyddogaethau iddo; ac yn gwneud darpariaeth ynghylch casglu a datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â masnach.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddwr y Bil yw'r Adran Masnach Rhyngwladol.
5. Mae gan y Bil bedair prif swyddogaeth:
 - Mae'n rhoi pwerau i Weinidog y Goron a'r awdurdodau datganoledig wneud rheoliadau er mwyn gweithredu'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau os bydd y DU yn aelod annibynnol o'r Cytundeb hwnnw ar ôl ymadael â'r UE;
 - Mae'n rhoi pwerau i Weinidog y Goron a'r awdurdodau datganoledig wneud cytundebau masnach rhyngwladol gyda thrydydd gwledydd sydd â chytundebau masnach sydd eisoes yn bodoli gyda'r UE;
 - Mae'n sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach i weithredu fframwaith rhwymedïau masnach newydd y DU;
 - Mae'n sefydlu porth rhannu data rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a chyrrff cyhoeddus a phreifat eraill.

6. Mae'r diwygiadau a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â:
 - Chydsynio mandadau negodi Llywodraeth y DU gan y Senedd ar gyfer cytundebau masnach rydd ac ar gyfer adroddiadau ôl-gadarnhau ar effaith unrhyw gytundebau masnach rydd sydd wedi'u gwneud;
 - Gofynion mewn cysylltiad â pherthnasau masnach y dyfodol gyda'r UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (gan gynnwys cysondeb â Deddf Gogledd Iwerddon 1998); a
 - Gofyniad i wneud datganiad ynghylch effaith unrhyw reoliadau a wneir dan gymal 2 ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

7. Dyma'r darpariaethau yn y Bil sy'n arbennig o berthnasol i Gymru:
 - Cymal 1 – (gweithredu'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau).
 - Cymal 2 – (gweithredu cytundebau masnach ryngwladol).

8. Nid ydym o'r farn bod Rhan 2 a 3 - (sefydlu'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach; a Chasglu a rhannu gwybodaeth fasnach) yn gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, nac yn addasu'r cymhwysedd hwnnw.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

9. Rydym yn ystyried bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer Rhan 1 o'r Bil a'i Hatodlenni cysylltiedig ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r cymalau a ganlyn y ceisir cydsyniad ar eu cyfer eisoes wedi'u nodi'n fanwl yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf (sydd i'w weld yma): Rhan 1, cymalau 1 i 4 ac atodlenni 1, 2 a 3.

10. Pan gyflwynwyd y Bil Masnach gyntaf, roedd Llywodraeth Cymru yn pryderu ynghylch agweddau arno a oedd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac a oedd yn syrthio y tu allan iddo. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy welliannau neu ymrwymadau a wnaed yn Senedd y DU a gosodwyd Memorandwm Atodol ychwanegol ar 14 Chwefror 2019. Yn dilyn trafodaeth, pleidleisiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cydsyniad i'r Bil Masnach ar 12 Mawrth 2019.

11. Ers gosod y Memorandwm blaenorol ac ers i'r Bil wneud ei ffordd drwy Dŷ'r Arglwyddi, mae rhai gwelliannau pellach wedi'u gwneud i'r Bil. Ystyriwn fod un o'r gwelliannau hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol ac mae angen cydsyniad pellach ar ei gyfer, ers y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol.
12. Mae'r gwelliant yn addasu ystyr 'is-ddeddfwriaeth'. Felly, pan gaiff y term hwn ei ddefnyddio yn y Bil, mae bellach yn cynnwys is-ddeddfwriaeth a wnaed dan Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad. Un o effeithiau'r addasiad hwn yw ei fod yn datgymhwyso'r gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU cyn gwneud rheoliadau dan y Bil Masnach os gallai Gweinidogion Cymru wneud yr un peth drwy reoliadau dan Ddeddf neu Fesur y Cynulliad heb yr angen i ymgynghori â Llywodraeth y DU (a siarad yn fras). Mae hyn yn ehangu'r pwerau datganoledig dan y Bil. Ystyriwn y gwelliant hwn i fod o fewn cymhwysedd. Gan mai effaith y gwelliant yw ehangu pwerau Gweinidogion Cymru, ystyriwn nad yw'r Cynulliad wedi cydsynio i'r gwelliant hwn yn ei gydsyniad gwreiddiol.
13. Credwn fod y gwelliant hwn yn gwella'r Bil am ei fod yn cael gwared â senario lle y byddai angen i Weinidogion Cymru ymgynghori â Llywodraeth y DU cyn gwneud rheoliadau dan y Bil Masnach, ond na fyddai angen iddynt wneud hynny os gwnaed yr un ddarpariaeth dan bwerau eraill. Ystyriwn, felly, y dylid rhoi cydsyniad.

Pwerau i greu is-ddeddfwriaeth

14. Mae Atodlen 2 yn darparu ar gyfer craffu gan Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig ar reoliadau a wneir dan gymalau 1 neu 2. Mae rheoliadau a wneir dan gymal 1(1) gan Weinidog y Goron neu Weinidogion Cymru yn gweithredu naill ai ar y cyd neu ar eu pennau eu hunain yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol; mae rheoliadau a wneir dan gymal 2(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Cyfyngiadau ar bwerau Gweinidogion Cymru

15. Aethpwyd i'r afael â'n pryderon gwreiddiol ynghylch y pwerau cydredol sydd yn y Bil h.y. bod Gweinidogion Cymru a Gweinidog y Goron yn gallu gwneud rheoliadau mewn perthynas â Chymru ac o ran cyfyngu ar bwerau Gweinidogion Cymru drwy welliannau blaenorol a wnaed i'r Bil. Mae'r Cynulliad eisoes wedi rhoi ei gydsyniad ar gyfer y rhain.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Masnach

16. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod deddfwriaeth yn angenrheidiol er mwyn darparu eglurder a sicrwydd i fusnesau a defnyddwyr mewn

perthynas â masnach wrth i ni ymadael â'r UE. Rydym yn derbyn y gallai achosion godi pan fyddai'n synhwyrol i Senedd y DU deddfu ar feysydd datganoledig, ond dim ond gyda chydysyniad y Llywodraethau Datganoledig y dylid gwneud hynny. Yng nghyd-destun yr ymrwymadau eraill a wnaed gan Lywodraeth y DU o ran y Bil, byddwn yn argymhell bod y Cynulliad yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol.

Goblygiadau ariannol

17. Er nad oes goblygiadau ariannol uniongyrchol ar gyfer Llywodraeth Cymru na'r Cynulliad yn codi o'r pwerau dan y Bil, bydd ein cydberthnasau masnachol yn y dyfodol yn cyflwyno goblygiadau ariannol sylweddol i Gymru, o ran ei effaith economaidd yn gyffredinol ac mewn perthynas â chyllid sy'n dod o'r UE ar hyn o bryd, fel y nodir yn *Diogelu Dyfodol Cymru*.

Casgliad

18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil hwn y DU gan fod y Bil yn ymdrin â materion datganoledig a rhai nad ydynt wedi eu datganoli. O ran sicrhau cysondeb, ystyrir mai deddfu drwy gyfrwng Bil ar gyfer y DU cyfan yw'r dull deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur o greu polisi masnach annibynnol ar gyfer y DU unwaith y bydd wedi ymadael â'r UE.

Eluned Morgan AC

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Mai 2019

Memorandum of Understanding

between

the Government of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland

and

the Government of Ireland

concerning the Common Travel Area and associated reciprocal rights and privileges

Introduction

1. This Memorandum of Understanding (“MOU”) reaffirms the arrangement between on the one hand the Government of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and on the other the Government of Ireland (hereinafter referred to as “the Participants”) in relation to the Common Travel Area (“CTA”) and the associated reciprocal rights and privileges enjoyed by British and Irish citizens in each other’s state.

Purpose and aims

2. In recognition of their shared commitment to the protection of the CTA and associated reciprocal rights and privileges as a legitimate and fundamental public policy, the Participants have agreed to reinforce the excellent and highly valued cooperation that already exists. This MOU is concerned with the rights of British and Irish citizens, and has as its purpose:
 - a) to reaffirm the status that British and Irish citizens enjoy in each other’s state;
 - b) to reaffirm the associated reciprocal rights and privileges enjoyed by British and Irish citizens in each other’s state;
 - c) to confirm the Participants’ intention to provide further certainty and clarity to British and Irish citizens, and to those responsible for delivering relevant services, about those associated reciprocal rights and privileges;
 - d) to confirm that, where necessary, steps will be taken now and in the future by the Participants to ensure that these associated reciprocal rights and privileges continue to be appropriately reflected in their respective legal systems; and
 - e) to confirm the Participants’ commitment to ongoing joint work to maintain and enhance the frameworks for cooperation on matters relating to the CTA and the associated reciprocal rights and privileges whilst protecting the longstanding principles on which this cooperation is based.

The Common Travel Area

3. The CTA is a long-standing arrangement involving the United Kingdom (“UK”), the Channel Islands and the Isle of Man, and Ireland that facilitates the ability of our citizens to move freely within the CTA. In addition, associated reciprocal rights and privileges have been enjoyed by British citizens in Ireland, and Irish citizens in the UK, since Ireland’s independence.
4. These arrangements reflect the historically close links and cooperation between the UK and Ireland, the many social and economic connections, as well as how the two countries have approached together the movement of people across national borders over time. These links have given rise to, and facilitated the reciprocal enjoyment of, certain rights and entitlements to public services by British and Irish citizens when in each other’s state. The arrangements hold a special significance in people’s daily lives and are of immense importance to the UK and Ireland. The detail of these arrangements has developed over time and will continue to do so.
5. The CTA and associated reciprocal rights and privileges existed long before either the UK or Ireland were members of the European Union (“EU”). The CTA and the associated reciprocal rights and privileges which British and Irish citizens enjoy are separate from, and therefore not dependent on, EU citizenship or EU membership. In the context of the UK’s withdrawal from the EU, and recognising the strong and enduring people to people ties, and long tradition of migration between the UK and Ireland, the Participants consider it desirable to provide a contemporary articulation of these longstanding CTA arrangements, and to reaffirm that such arrangements are to continue.

Movement of British and Irish citizens

6. The CTA allows British and Irish citizens to move freely between the UK and Ireland. The Participants are to continue to ensure that their national laws facilitate such movement.

The right to reside

7. The CTA permits British citizens to take up residence in Ireland and Irish citizens to take up residence in the UK. The Participants are to continue to ensure that their national laws provide for such a right to reside.

The right to work

8. The CTA affords British citizens in Ireland and Irish citizens in the UK the right to work, including on a self-employed basis, without any requirement to obtain permission. The Participants are to continue to ensure that their national laws provide for such a right to work. It is acknowledged that the recognition of qualifications, including professional qualifications, is an essential facilitator of the right to work associated with the CTA. The Participants are committed to ensuring that within their respective jurisdictions, comprehensive measures continue to be in place to allow for the recognition of such qualifications, covering all relevant professions, in accordance with their national laws.

Health care

9. The CTA affords British citizens residing in Ireland and Irish citizens residing in the UK the right to access emergency, routine and planned publicly funded health services in each other's state, on the same basis as citizens of that state.

Social protection

10. The CTA affords British citizens residing or working in Ireland and Irish citizens residing or working in the UK, social security rights in each other's state. They are entitled, when in the other state, to the same social security rights, and are subject to the same obligations, as citizens of that state.

Social housing

11. The CTA affords British citizens residing in Ireland, and Irish citizens residing in the UK, the right to access social housing, including supported housing and homeless assistance, in each other's state, on the same basis as citizens of that state.

Education

12. The CTA affords British and Irish citizens the right to access all levels of education and training, and associated student support, in each other's state, on terms no less favourable than those for the citizens of that state.

Voting

13. British citizens residing in Ireland, and Irish citizens residing in the UK, are entitled to register to vote with the relevant authorities for local and national parliamentary elections in each other's state, on the same basis as citizens of that state. Upon reaching voting age, these citizens are entitled to vote in those elections on the same basis as citizens in that state.

Further arrangements and implementation measures

14. The Participants are committed to ensuring that any necessary steps are taken to give effect to the associated reciprocal rights and privileges outlined above at paragraphs six to thirteen. This includes any necessary legislative steps and further, more detailed, bilateral agreements that may be entered into now or in the future to give effect to specific aspects of the CTA arrangements.
15. The Participants will take the necessary steps to provide certainty and clarity about each of the associated reciprocal rights and privileges set out above to British and Irish citizens and those responsible for the delivery of relevant services.

Oversight

16. The Participants will establish a group of senior officials from both jurisdictions under this MOU which will meet at least once a year. The group will operate in coordination with structured intergovernmental arrangements between the Participants. It will be complementary to the existing CTA Forum on Immigration matters.

Final provisions

17. The foregoing record represents the common understanding of the Participants upon the matters referred to therein. It is not of itself intended to create legally binding obligations. The longstanding durability of the CTA has benefited from a degree of flexibility and the detail of the foregoing arrangements may continue to evolve.
18. Signed in duplicate at London on 8 May 2019.

For the Government of the United Kingdom of
Great Britain and Northern Ireland

For the Government of Ireland

Rt. Hon. David Lidington CBE MP
Chancellor of the Duchy of Lancaster and
Minister for the Cabinet Office

Simon Coveney TD
Tánaiste and
Minister for Foreign Affairs and Trade

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon